



RHESTR WIRIO HUNANASESIAD FAWL

Isod mae amlinelliaid o'r gofynion ar gyfer arolygiad FAWL. Sylwch fod hyn yn cynnig arweiniad yn unig. Gellir gweld safonau cyflawn FAWL yn Llawlyfr Cynhyrchwyr FAWL ar-lein ar www.fawl.co.uk neu ffoniwch y swyddfa ar 01970 636688.

1 DOGFENNAU

- Oes gennych chi gopi o'r canlynol?
 - Cofnodion hyfforddi
 - Taflen gofnodi cwynion
 - Rhestr o Rifau Cyswllt Brys

2 SYMUDIADAU DA BYW A'R GALLU I OLRHAIN

- A ydy'r da byw wedi'u nodi yn unol â Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, y DU a Chymru?
- A ydy'r cofnodion yn gyfredol?
 - Genedigaethau
 - Symudiadau
 - Marwolaethau
 - Stocrestr Flynyddol (Defaid yn unig)
- A ydy'r da byw wedi treulio isafswm cyfnod cyn eu lladd ar fferm sydd wedi'i chofrestru o dan gynllun gwarant fferm gydnabyddedig am gyfnod o 90 diwrnod ar gyfer cig eidion a 60 diwrnod ar gyfer defaid? Gellir rhannu hyn rhwng mwy nag un fferm warantedig.
- Rhaid i berson sy'n cludo da byw fod â thystysgrif cymhwysedd i gario da byw, neu os defnyddir cludwyr, mae'n rhaid derbyn y rhif ABM.

3 SIEDIAU A THRAFOD DA BYW

- A ydy'r siediau da byw wedi'u hadeiladu'n dda a'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da gyda digon o le i symud yn rhwydd?
- A ddarperir digon o giwbicls ac a ydy'r cynllun yn gywir ar gyfer maint a brîd y gwartheg?
- A oes awyru a goleuadau digonol yn y siediau ac a ddarperir dŵr glân?
- Os ydy'r gwartheg yn cael eu clymu, a ydyn nhw'n cael eu gadael yn rhydd a'u hymarfer?
- A oes cyfleusterau trin a chlodiant ar gael, sydd mewn cyflwr da ac yn addas i'w ddefnyddio?

4 IECHYD A LLES ANIFEILIAID

- A oes cynllun Iechyd a Lles cynhwysfawr yn cynnwys bioddiogelwch ar waith?
- A ydy milfeddyg y fferm wedi cynnal adolygiad blynyddol o iechyd a lles y da byw?
- A ydy'r stoc sydd wedi marw wedi cael ei waredu'n ddiogel ac a ydych chi wedi cadw cofnodion o farwolaethau / gwarediadau?
- A ydy'r stoc sydd wedi'u gaeafu tu-allan yn cael mynediad i ardal orwedd lân, sych a chysgodol bob amser?
- A oes gan dda byw sydd wedi'u pesgi y tu mewn fynediad i ardal lân a sych bob amser?
- A ddarperir cyfleusterau priodol ar gyfer gwahanu neu ynysu da byw sâl neu sydd wedi'u hanafu?
- A ydy Codau Lles Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwartheg a / neu Ddefaid ar gael yn hwylus?

5 MEDDYGAETH, TRINIAETH A RHEOLI ARFEROL

- A oes cofnod prynu meddyginiaethau cyflawn o'r holl feddyginiaethau milfeddygol a brynwyd?
- A ydych wedi cadw cofnodion triniaeth feddyginiaeth gyflawn ar gyfer y cyfan o'r meddyginiaethau milfeddygol a roddir i dda byw?
- A ydy meddyginiaethau yn cael ei storio mewn lle diogel, ac a ydy unrhyw feddyginiaethau y tu hwnt i'w dyddiad defnydd yn cael eu gwaredu'n briodol?
- A oes gan yr uned bolisi cyfredol ar nodwyddau wedi torri?
- A ydy'r anifeiliaid sydd wedi'u trin wedi'u nodi'n glir trwy gydol cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd yn dilyn y meddyginiaeth sy'n cael eu rhoi?
- A ydy llawdriniaethau cyffredin ar y fferm wedi'u cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol?

6 BWYDO DA BYW

- A ydy labeli bwyd anifeiliaid (wedi'u cymysgu gartref neu eu prynu i mewn) yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd?
- Os ydych yn cymysgu bwydydd gartref, a ydy'r uned wedi'i chofrestru gyda'r awdurdod perthnasol?
- A ydy porthiant cyfansawdd / cyfunol a'r holl borthiant arall a ddarperir yn unig gan fasnachwr / gwneuthurwr sydd wedi'i ardystio â Chynllun Gwarantu Bwyd Anifeiliaid AIC, neu fasnachwr bwyd anifeiliaid cofrestredig UFAS / FEMAS, masnachwr grawn cofrestredig TASCC neu fferm warantedig arall? Os yw'n dod o fferm heb warant, a yw'r ffynhonnell wedi'i chynnwys mewn datganiad gwarant?
- A ydy glendid storfeydd bwyd anifeiliaid / ardaloedd storio ac offer yn cael ei gynnal?
- A oes polisi a system rheoli plâ / fermin ar waith gan gynnwys sicrhau bod adnoddau bwyd anifeiliaid yn cael eu diogelu'n ddiogel rhag llygod?

7 DIOGELU'R AMGYLCHEDD

- A oes gan yr uned Gynllun Rheoli a Storio Tail Fferm sy'n cael ei adolygu'n ddigonol, gan gynnwys map o'r fferm â chod lliw a chyfrifiad ar Gynhyrchiad Tail?
- A ydy'r tail, slyri, dŵr budr ac elifiant silwair yn cael ei storio i atal llygredd amgylcheddol?
- A ydy'r cofnodion o ddefnyddio gwrtaith yn cael eu cadw?
- A ddefnyddir Cynhyrchiad Diogelu Planhigion? Os felly, a oes tystysgrifau perthnasol ar gael e.e. NPTC a Sprayer NSTS. Cedwir cofnodion am o leiaf tair blynedd.
- A ydych yn dipio defaid? Os felly, a oes tystysgrifau perthnasol ar gael e.e. NPTC ac Awdurdodi Dŵr Daear Cyfoeth Naturiol Cymru.
- A ydy'r tanciau storio olew tanwydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Olew?
- Dogfennau ar gael ar gyfer gwastraff nad yw'n fioddiraddadwy e.e. Gwastraff Plastig.
- A oes Codau Dŵr, Aer a Phridd ar gael?